

Tasg 1

(Estynnol, sbardun 2)

1. Ar ôl darllen y Datganiad i'r Wasg eglurwch

i) Beth yw pwrpas y ffurf.

ii) Pa fath o iaith sydd yn y ffurf e.e. ffurfiol/safonol/llafar. Rhowch enghreifftiau ac eglurwch pam mai'r math yma o iaith sy'n cael ei defnyddio.

2. Mae lanto Tomos yn dweud mai un cyfarwyddyd sydd yn y datganiad ond mae dau! Beth ydyn nhw?

i)

ii)

3. Mae lanto yn cytuno gyda dau beth sydd yn cael eu dweud yn y datganiad. Beth ydyn nhw?

i)

ii)

4. Awgrymiadau sydd gan lanto yn ei lythyr. Trowch nhw yn orchmynion. Mae un wedi ei wneud i chi ac mae'n dangos sut mae treiglâd medal yn digwydd weithiau.

Gwneud yn siwr bod y larymau tân a'r larymau lladron yn gweithio'n iawn.	
Sicrhau bod golau digonol ar dir yr ysgol ac yn arbennig yn y cornelau tywyll	
Ystyried cyflogi rhywun i gerdded o gwmpas yr ysgol yn ystod y nos	
Torri gor-dyfiant sy'n rhoi lle....	Torrwch or-dyfiant sy'n rhoi lle ...
Diffodd y cyflenwad nwy i'r labordai a'r ceginau	
Symud biniau ysbwriel gan eu bod yn lleoedd delfrydol i gychwyn tân	
Cadw'r giatiau ar glo	
Sicrhau bod y ffensus a'r giatiau yn gyfan	
Cau llenni'r ystafelloedd i guddio'r hyn sydd yno	
Storio offer drud e.e. cyfrifiaduron mewn ystafell dan glo, heb ffenestri ac ddim ar y llawr gwaelod.	